**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1408
Ein cyf/Our ref LW/00349/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

05 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Chwefror yn amgáu deiseb P-06-1408 ynghylch mynediad diogel i gerddwyr a cherbydau i'r Ardd Gudd o'r A4042 Goytre Fawr gan Janet Elizabeth Butler.

Yn dilyn gweithredu terfyn cyflymder o 50mya ar ffordd gyswllt yr A4042 heibio i'r Ardd Gudd, mae opsiynau wedi eu harchwilio, ar gam rhagarweiniol, i wella diogelwch y cyhoedd sy'n teithio o gwmpas y pwynt mynediad.

Mae ymchwiliadau wedi eu cynnal yn ddiweddar i sicrhau bod modd cyflawni'r opsiynau hyn o ran y tir sy'n ofynnol ar gyfer y gwelliannau cysylltiedig i'r gyffordd sy'n cynnwys darpariaeth teithio llesol. Rydym yn disgwyl derbyn yr adroddiad dichonoldeb drafft yn fuan.

Yn amodol ar adolygiad ffafriol yn y cyfnod dichonoldeb hwn ac a fydd cyllid ar gael, byddai'r cynllun wedyn yn symud ymlaen i ddyluniad manwl yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

Yn gywir,

**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.